Rhif: WG36716

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu

Gweithredu fframwaith rheoleiddio newydd

Mawrth 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78964-596-5

Golwg Gyffredinol

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd gan Lywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad:

WG35862 - Cam 3 gweithredu'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), 2016 - Gwasanaethau Mabwysiadu.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 4 Medi 2018 a daeth i ben ar 27 Tachwedd 2018. Cafwyd 9 o ymatebion oddi wrth amrywiaeth o randdeiliaid a phartïon â budd.

Camau i'w cymryd

Er gwybodaeth yn unig.

Gwybodaeth ychwanegol

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:

Y Gangen Gweithredu Deddfwriaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: RISCAct2016@gov.wales

Copïau ychwanegol

Gellir cael mynediad at y ddogfen hon drwy wefan Llywodraeth Cymru: https://beta.llyw.cymru/fframwaith-rheoleiddio-newydd-ar-gyfer-gwasanaethau-mabwysiadu

Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

Cynnwys Tudalen

Adran 1

1.1 Cyflwyniad 4

1.2 Y cyd-destun ar gyfer newid 5

1.3 Yr ymgynghoriad hwn 6

1.4 Digwyddiadau ymgynghori 7

1.5 Y camau nesaf 7

Adran 2

2.1 Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru 8

2.2 Cwestiynau ychwanegol 32

Atodiadau

Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr 36

Adran 1

1.1 Cyflwyniad

Diwygio'r fframwaith statudol

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf rydym wedi gweld fframwaith cyfreithiol newydd wedi'i gydgrynhoi yn cael ei greu ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru wrth i ddau ddarn pwysig o ddeddfwriaeth gael eu pasio.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[1] ('Deddf 2014'), a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016, yn sefydlu fframwaith newydd sy'n tynnu ynghyd ac yn moderneiddio'r gyfraith sy'n ymwneud â'r rhan fwyaf o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru.

Derbyniodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[2] ('Deddf 2016') Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Mae'n nodi'r fframwaith statudol newydd ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac yn diwygio'r broses o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae felly'n disodli systemau perthnasol a roddwyd ar waith yn flaenorol o dan Ddeddf Safonau Gofal[3].

Mae'r ddwy Ddeddf hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i weithredu nifer o eitemau o is-ddeddfwriaeth trwy wneud rheoliadau, ynghyd â chyhoeddi canllawiau statudol a chyflwyno codau ymarfer.

O ran mabwysiadu, caiff prosesau eu llywodraethu'n bennaf gan Ddeddf Mabwysiadu 1976[4] ac, yn enwedig, Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002[5] ('Deddf 2002') sydd hefyd yn darparu nifer o bwerau gwneud rheoliadau.

Gweithredu Deddf 2016

Mae hyn yn cael ei wneud i raddau helaeth mewn tri cham sy'n gorgyffwrdd:

- **Cam 1 (2016/17) -** roedd Cam 1 yn cynnwys rheoliadau sy'n ymwneud â'r system newydd o reoleiddio'r gweithlu sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 3 Ebrill 2017. Ar y cyd â'r Rheoliadau hyn, aeth Gofal Cymdeithasol Cymru ati i ddatblygu rheolau a'r gweithdrefnau sy'n llywodraethu'r broses gofrestru a rheoleiddio'r gweithlu.

- **Cam 2 (2017/18)** - sefydlodd Arolygiaeth Gofal Cymru systemau newydd ar gyfer cofrestru gwasanaethau rheoleiddiedig a'u gweithredu o fis Ebrill 2018 ymlaen. Roedd y cam hwn hefyd yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol yn ymwneud â'r gofynion a'r safonau a ddisgwylir gan ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol cartrefi gofal (gan gynnwys cartrefi plant), llety diogel ar gyfer plant,

[1] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf
[2] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/pdfs/anaw_20160002_we.pdf
[3] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/pdfs/ukpga_20000014_en.pdf
[4] http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1976/36
[5] http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2002/38/contents

canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref. Daethant i rym ar 2 Ebrill 2018.

I weld rheoliadau a chanllawiau statudol cam 1 a cham 2 ewch i Hyb Gwybodaeth a Dysgu Arolygiaeth Gofal Cymru[6]:

- **Cam 3 (2018/19) -** dyma'r cam presennol ac mae'n cynnwys y gwaith o ddatblygu rheoliadau a chanllawiau statudol yn ymwneud â'r gofynion a'r safonau a ddisgwylir gan ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau eirioli. Y bwriad i'r rheoliadau ddod i rym ym mis Ebrill 2019.

1.2 Y cyd-destun ar gyfer newid

Rheoleiddio gwasanaethau o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000

Cyflawnwyd llawer iawn gan y rheoleiddwyr (Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru[7]), a'r sector gofal cymdeithasol ehangach, o ran mynd ar drywydd yr uchelgeisiau a nodwyd yn Neddf Safonau Gofal 2000. Darparodd y fframwaith hwn sylfaen o safonau, ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth ac i'r gweithlu sy'n eu darparu, ac nid oes amheuaeth ei fod wedi gwella trefniadau amddiffyn y cyhoedd. Mae hefyd wedi darparu llawer mwy o gysondeb, diogelwch rhag cam-drin a cham-fanteisio, a datgelu mwy o arferion o safon annigonol. Gyda'n gilydd, rydym wedi llwyddo i wella perfformiad a pharhau i ddefnyddio rheoleiddio ac arolygu i ddileu safonau gwael.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod llawer o bethau wedi newid o fewn ac o gwmpas y sector ers yr adeg honno, ac rydym wedi nodi'r angen i atal ein trefniadau rheoleiddio rhag mynd yn hen ffasiwn a'r angen i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau cynaliadwy.

Mae ein diwygiad o'r system reoleiddio, wedi'i ysgogi'n bennaf trwy Ddeddf 2016, yn dibynnu ar bum egwyddor allweddol:

- ymatebolrwydd o'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2014
- sicrhau bod dinasyddion yn ganolog i ofal a chymorth
- datblygu dull Cymru gyfan cydlynol a chyson
- mynd i'r afael â methiant darparwyr
- ymatebolrwydd i fodelau gwasanaeth newydd ac unrhyw bryderon sy'n dod i'r amlwg ynghylch ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth.

Rheoleiddio gwasanaethau mabwysiadu

Yn wahanol i reoleiddio ac arolygu asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol ac asiantaethau cymorth mabwysiadu - y cyfeirir atynt gyda'i gilydd bellach fel 'gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig' - ni ddarperir ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol yn Neddf 2016. Maent yn dal i fodoli o dan Ddeddf 2002. Fodd bynnag, ein hamcan

[6] https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-rhagc-rheoliadau

[7] Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru oedd Arolygiaeth Gofal Cymru (hyd at fis Ionawr 2018). Cyngor Gofal Cymru oedd Gofal Cymdeithasol Cymru (hyd at fis Ebrill 2016).

polisi ni - cyn belled ag y bo'n bosibl - yw cymhwyso'r un gyfres o safonau ar gyfer monitro a rheoli ar draws gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol a rheoleiddiedig yng Nghymru.

Bydd rhai gwahaniaethau sylweddol yn hyn o beth, a hynny'n angenrheidiol, gan fod swyddogaeth gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol yn wahanol iawn i swyddogaeth yr unigolyn cyfrifol mewn gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig, ac yn cael ei harfer ar wahanol lefel.

Bydd rheoliadau a chanllawiau statudol a wneir o dan Ddeddf 2016 yn disodli gofynion a nodwyd yn flaenorol, o ran asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol ac asiantaethau cymorth mabwysiadu, o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a'i Safonau Gofynnol Cenedlaethol cysylltiedig.

Yn yr un modd, bydd Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf 2002 a chod ymarfer a wnaed o dan Ddeddf 2014 yn disodli gofynion a gyflwynwyd ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol gan Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007 ('Rheoliadau 2007') a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol perthnasol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Gwella Canlyniadau i Blant

Cefnogir y gwaith hwn o ddiwygio'r broses o reoleiddio ac arolygu gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru gan fentrau polisi ehangach, gan gynnwys rhaglen 'Gwella Canlyniadau i Blant' Llywodraeth Cymru. Caiff y rhaglen hon ei goruchwylio gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol o lywodraeth leol, y byd academaidd a'r trydydd sector, ynghyd â'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae'n canolbwyntio ar dair prif thema: lleihau nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal; gwella'r canlyniadau i blant sydd yn derbyn gofal (gan gynnwys lleoliadau sefydlog a chynllunio ar gyfer parhad); a chefnogi plant sy'n gadael gofal i fod yn oedolion annibynnol.

1.3 Yr ymgynghoriad hwn

Roedd yr ymgynghoriad, a gynhaliwyd rhwng 4 Medi a 27 Tachwedd 2018, yn gofyn am safbwyntiau ar:

- Osod gofynion newydd ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol o ran y gwasanaethau hynny o dan adrannau 27 a 28 o Ddeddf 2016

- Gosod gofynion tebyg, pan fo hynny'n berthnasol, ar ddarparwyr gwasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol a'u rheolwyr, o dan adran 9 o Ddeddf 2002.

Roedd hefyd yn gwahodd safbwyntiau ar:

- Ganllawiau statudol drafft ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol ar fodloni safonau gwasanaeth, o dan adran 29 o Ddeddf 2016

- Cod ymarfer drafft are gyfer gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol, o dan adran 145 o Ddeddf 2014.

- Y dewisiadau ar gyfer dyfodol yr adolygiadau annibynnol o benderfyniadau ynghylch mabwysiadu.

Derbyniwyd 9 ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd rhai o'r rhain yn naratif llwyr ac felly nid ydynt yn ymddangos yn y grynodeb o ymatebion blwch ticio yn yr adroddiad hwn. Cafwyd un ymateb cyfansawdd a gyflwynwyd gan Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru ar ran y gwasanaeth ei hun; rheolwyr mabwysiadu o'r pum menter gydweithredol ranbarthol; Cymdeithas Plant Dewi Sant; Barnardo's Cymru ac Adoption UK. Ystyriwyd yr holl ymatebion yn gyfartal o ran y sylwadau a gafwyd. Ceir rhestr o ymatebwyr yn Atodiad A.

Ceir crynodeb o'r ymatebion, ynghyd â dadansoddiad a chasgliadau Llywodraeth Cymru yn Adran 2.

1.4 Digwyddiadau ymgynghori

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori yn rhan o'r broses ymgynghori. Nod y digwyddiadau oedd annog rhanddeiliaid i ymateb a galluogi'r rhai a oedd yn bresennol i:

- gael golwg gyffredinol ar y fframwaith deddfwriaethol ddrafft a'r newidiadau allweddol y bydd yn eu gwneud;
- gwirio eu dealltwriaeth o'r cynigion a cheisio eglurder, os oedd angen;
- ystyried y goblygiadau posibl ar gyfer eu swyddogaeth hwy a'u sefydliad

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 6 Tachwedd yng Ngerddi Sophia, Caerdydd a chynhaliwyd yr ail ddigwyddiad ar 8 Tachwedd ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam, gyda chyfanswm o oddeutu deg ar hugain yn dod i'r digwyddiadau, yn cynrychioli amrywiaeth o randdeiliaid.

1.5 Y camau nesaf

Ym mis Chwefror 2019, yn dilyn cyngor gweithdrefnol gan Wasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru, gosododd Gweinidogion Cymru y Rheoliadau drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn tri offeryn statudol ar wahân, sef:

- Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019[8]
- Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019[9]
- Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019[10].

[8] http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld12200/sub-ld12200-w.pdf
[9] http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld12190/sub-ld12190-w.pdf
[10] http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld12186/sub-ld12186-w.pdf

Bydd y rheoliadau sy'n gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu gwirfoddol ac asiantaethau cymorth mabwysiadu (sydd yn 'wasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig' o dan Ddeddf 2016) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Os byddant yn cael eu pasio gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2019 byddant yn dod i rym ar 29 Ebrill 2019. Gwnaed y rheoliadau sy'n gosod gofynion ar wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol, a'r rhai sy'n rhestru gwasanaethau cymorth mabwysiadu, gan ddefnyddio pwerau yn Neddf 2002, ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Bwriedir iddynt hwythau hefyd ddod i rym ar 29 Ebrill 2019.

Gosodwyd drafft o'r cod ymarfer yn ymwneud â gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol[11], i'w gyflwyno o dan Ddeddf 2014, hefyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Chwefror 2019. Nid oes unrhyw weithdrefn yn ofynnol o ran y canllawiau statudol ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig a'u hunigolion cyfrifol, o dan adran 29 o Ddeddf 2016, a fydd yn cael eu cwblhau a'u cyhoeddi ym mis Mawrth 2019. Bydd y cod ymarfer a'r canllawiau statudol yn dod i rym ar yr un adeg â'r rheoliadau, ar 29 Ebrill 2019.

[11] http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld12212/sub-ld12212-w.pdf

Adran 2

2.1 Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru

Sylwer: Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd rhai o'r canrannau yn dod i gyfanswm o 100%.

RHAN 2: Gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig – gwasanaethau rhagnodedig ac eithriadau

Cwestiwn 1: A yw'r 'gwasanaethau cymorth mabwysiadu' fel y'u rhagnodir yn rheoliad 3(1) yn glir ac yn briodol?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
3	1	0	0	5
33%	11%	0%	0%	56%

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd un ymatebwr yn dymuno gweld eitem ychwanegol yn cael ei hychwanegu at y rhestr o wasanaethau mabwysiadu yn Rheoliad 3(1): "cwnsela ar gyfer rhieni biolegol" wedi'i gomisiynu gan y gwasanaeth mabwysiadu. O ran yr eithriadau yn Rheoliad 4, roedd pawb a fynegodd farn yn cytuno â'r eithriadau fel y'u drafftiwyd. Roedd un cais am fwy o eglurder yn y drafft o ran yr eithriad i grwpiau hunangymorth gael trafodaethau cyffredinol; a chais i'w gwneud yn eglur y dylid parhau i ddarparu gwasanaethau cymorth cymheiriaid gwerthfawr, er na fyddant yn cael eu rheoleiddio.

Roedd un ymatebwr yn cefnogi eithriad ychwanegol ar gyfer y ddarpariaeth o wasanaethau mabwysiadu yn gysylltiedig â phrif fusnes darparwr.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn darparu yn adran 2(6) mai ystyr "gwasanaethau cymorth mabwysiadu" yw (a) cwnsela, cyngor a gwybodaeth, a (b) unrhyw wasanaethau eraill a ragnodir gan reoliadau, yn ymwneud â mabwysiadu. Nid oes angen i'r rheoliadau gyfeirio'n benodol at gwnsela felly (gan gynnwys cwnsela i rieni biolegol), gan ei fod eisoes wedi ei nodi yn y Ddeddf.

O ran gwasanaethau cymorth cymheiriaid, mae canllawiau cofrestru AGC[12] yn nodi pa fathau o wasanaethau y mae'n rhaid eu rheoleiddio. At y dibenion hyn, bydd y canllawiau statudol yn diffinio gwasanaethau mabwysiadu - gan ddefnyddio'r diffiniadau a gymerwyd o'r Ddeddf - a bydd hefyd yn nodi'r darparwyr hynny sydd wedi eu heithrio o'r diffiniad, yn Atodiad A. Bydd AGC ei hunan yn defnyddio'r rheoliadau fel y sail ar gyfer penderfynu ar ba un a yw gwasanaeth mabwysiadu penodol wedi ei eithrio ai peidio. Ni fydd yn cynnig

[12] https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2019-02/190215-risca-arweiniad-cy.pdf

dehongliad ychwanegol o'r hyn a ddisgwylir yn y rheoliadau o ran cymorth cymheiriaid a'r hyn na ddisgwylir, oherwydd dylai'r penderfyniad hwn fod yn seiliedig ar ddehongli geiriad y rheoliadau eu hunain.

Yn yr un modd, nid yw'r briodol yn gyfreithiol i ni ddefnyddio canllawiau statudol i osod rhwymedigaethau cyfreithiol ar ddarparwyr y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â hwy; mae'r canllawiau hyn yn nodi'r safonau gwasanaeth y mae AGC yn rheoleiddio yn unol â hwy. Ni fyddem yn gallu cynnwys mewn canllawiau felly, gofyniad bod yn rhaid parhau i ddarparu cymorth cymheiriaid, ond byddem yn ceisio cefnogi hyn fel yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd, trwy ein gwariant grant a thrwy ein negeseuon polisi ehangach ynghylch cymorth i bobl sy'n gysylltiedig â mabwysiadu.

Dim ond un ymatebwr oedd yn cefnogi'r eithriad ychwanegol posibl ar gyfer darparu gwasanaethau mabwysiadu yn gysylltiedig â phrif fusnes darparwr. Ni chafodd yr eithriad gefnogaeth yn y naill ddigwyddiad ymgynghori na'r llall (er nad oedd llawer o ddarparwyr annibynnol yn bresennol). Ni wnaeth yr ymatebwr a gefnogodd yr eithriad roi rhesymeg na thystiolaeth ategol ac felly nid ydym yn credu bod dadl ddigon cryf, a chefnogaeth ddigonol, i ychwanegu'r eithriad hwn.

RHAN 3: Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu - gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig

Cwestiwn 2: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
2	2	0	0	5
40%	22%	0%	0%	56%

Crynodeb o'r ymatebion

Codwyd pryderon gan grŵp o ymatebwyr am y darpariaethau "addasrwydd y gwasanaeth" yn Rheoliad 7. Yn eu barn hwy, byddai'r holl weithgareddau a ddarperir gan Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ar hyn o bryd yn dod o dan y gofyniad hwn a darparwyd rhestr ganddynt o wahanol swyddogaethau y mae Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol yn eu cyflawni wrth drefnu mabwysiad yr oeddent yn teimlo oedd yn dangos y byddai hwn yn faich gweinyddol newydd sylweddol iawn pe byddai angen cyflawni'r ymarfer 'addasrwydd' cyn y gellid cyflawni pob un swyddogaeth.

Codwyd pryderon tebyg gan grŵp o ymatebwyr ynghylch y term "gofal a chymorth" (sydd hefyd wedi ei ddiffinio yn Rheoliad 2(2)(d)). Roeddent yn teimlo nad oedd y term hwn yn cyd-fynd yn dda â'r broses o ymdrin ag ymholiadau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu, darparu cwnsela ac asesu pobl a allai ddymuno bod yn fabwysiadwyr; ac roeddent yn teimlo y gallai dyletswydd i ddarparu gofal a chymorth gychwyn dim ond ar yr adeg y bydd darpar fabwysiadwr yn cael ei baru gyda phlentyn neu blant. Roeddent yn teimlo y dylai pwyslais darpariaeth y gwasanaeth fod ar blant yn y broses fabwysiadu a bod perygl o dynnu asiantaethau mabwysiadu oddi wrth y dasg ganolog hon pe byddai dyletswyddau beichus a diangen yn cael eu gorfodi ar yr asiantaethau hyn. Yn yr un modd, mynegwyd pryderon ganddynt fod dyletswydd i ddarparu gofal a chymorth yn cael ei chynnig cyn i asesiad yr awdurdodau lleol gael ei gynnal a chyn i benderfyniad i ddarparu'r gwasanaeth gael ei wneud.

Mewn pwynt cysylltiedig, roedd yr un grŵp o'r farn nad oedd y term "canlyniadau personol" (yn 7(1) a 7(4)b) yn addas fel disgrifiad o'r diben o ddarparu gwasanaethau mabwysiadu, o ystyried y mathau o unigolion y byddai'r canlyniadau hyn yn deillio ohonynt. Nodwyd ganddynt nad oes gan unrhyw oedolyn unigol yr "hawl" i fabwysiadu a chyflawni ei ganlyniadau personol o ran dod yn rhieni mabwysiadol, er enghraifft.

O ran Rheoliad 8, roedd ymatebwyr o'r farn ei bod yn gadarnhaol cadw gofyniad i geisio safbwyntiau plant a phobl ifanc; ac i glywed a gweithredu ar leisiau plant sydd wedi cael eu mabwysiadu yn rhan o'r gwaith o adolygu a gwella'r gwasanaeth. Awgrymodd un ymatebwr y gallai'r canllawiau a'r cod ei gwneud yn ofynnol i drefniadau fod yn seiliedig ar Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Pwysleisiwyd ganddynt fod darparu adborth perthnasol i blant yn rhan hanfodol o'r safonau hyn, heb ei gyfyngu i achosion lle mae eu safbwyntiau wedi sbarduno newid i'r gwasanaeth neu'r datganiad o ddiben. Cynigiwyd y dylai fod monitro, yn rhan o'r broses arolygu, o'r graddau y

clywyd ac y gweithredwyd ar leisiau'r rhai a oedd wedi cael eu mabwysiadu (plant a'r rhai sydd wedi tyfu i fod yn oedolion erbyn hyn) wrth lunio'r gwasanaethau mabwysiadu a gynigir. Fel hyn, byddai mwy o ddysgu yn digwydd yn y system.

Hefyd, roedd cais am ganllawiau ar sut y dylid arddangos "sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd" a sut y byddent yn cael eu monitro gan AGC. Roedd awgrym hefyd y dylid dileu "fel rheol" o'r geiriad yn y canllawiau statudol yn ymwneud â rheoliad 9 (hysbysiadau), ar y sail ei fod yn arfer cyfredol i hysbysiadau gael eu gwneud o fewn 24 awr o'r digwyddiad.

O ran Rheoliad10 (cydymffurfiad â'r cod ymarfer), cynigiwyd gan un ymatebwr y dylai fod dyletswydd ar wasanaethau mabwysiadu i sicrhau bod eu staff yn ymwybodol o'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol a chydymffurfio ag ef, ac nid cydymffurfio â'r Cod Cyflogwyr yn unig. Roeddent yn dymuno gweld hyn yn cael ei adlewyrchu yn y canllawiau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

O ran ystyried "addasrwydd y gwasanaeth" yng nghyswllt y broses fabwysiadu, rydym o'r farn mewn gwirionedd bod un pwynt mynediad at y broses fabwysiadu i unigolyn - pa un ai fel darpar fabwysiadwr, plentyn neu riant biolegol - a bod gweddill y broses yn llifo ymlaen o'r pwynt hwnnw. Er efallai na fydd unigolion yn mynd yn eu blaenau i ddiwedd y broses mewn rhai achosion, nid oes pwynt ailymuno yn ystod y broses a fyddai'n gofyn am ddyfarniad ychwanegol ar addasrwydd y gwasanaeth (ac eithrio pan ellid gwneud cais am wasanaethau cymorth mabwysiadu ar ryw adeg yn ddiweddarach yn y mabwysiad). Byddai angen felly i Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol wneud penderfyniad ar yr un pwynt mynediad hwnnw yn unig, nid sawl gwaith ar gyfer pob elfen o'r broses fabwysiadu. Rydym o'r farn mai'r pwynt mynediad hwn yw cychwyn ffurfiol gwasanaeth(au) mabwysiadu i unigolyn, hy ymweliadau cychwynnol a chwnsela. Nid ydym o'r farn bod ymholiadau cychwynnol nac ymateb i gyswllt o'r fath yn gyfystyr â'r ddarpariaeth o wasanaeth yn y cyd-destun hwn. Rydym wedi gwneud hyn yn eglur yn y canllawiau statudol diwygiedig.

Mae rhanddeiliaid wedi dangos cryn ddryswch ynghylch ystyr y term 'gofal a chymorth' yn y rheoliadau drafft, er ei fod yn ddiffiniad craidd a ddefnyddir mewn rheoliadau ar gyfer llawer o'r mathau o wasanaeth. Mae hyn efallai'n arbennig o wir oherwydd na fydd gan yr un o'r gwasanaethau mabwysiadu a fydd yn dod o dan y gyfundrefn reoleiddio newydd elfen 'gofal'; ond hefyd gan fod rhanddeiliaid wedi dod yn gyfarwydd â'r term 'gofal a chymorth' yng nghyd-destun Deddf 2014, lle ceir dyletswyddau i asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth (cyn belled ag y bo meini prawf penodol yn cael eu bodloni). Fodd bynnag, Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yw'r prif ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n llywodraethu gwasanaethau mabwysiadu ac, er bod dyletswydd i asesu, nid oes dyletswydd i ddiwallu anghenion yn yr un modd. Mae'r gwahaniaeth rhwng dyletswyddau Deddfau 2014 a 2002 yn y maes hwn yn fater yr ydym yn cydnabod bod rhai rhanddeiliaid yn awyddus iawn i ni roi sylw iddo, ond bydd angen i ni wneud hynny trwy ddeddfwriaeth sylfaenol ac nid oes cyfrwng priodol wedi dod ar gael ar gyfer hyn eto.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod y rheoliadau hyn yn ymwneud â'r gyfundrefn ar gyfer rheoleiddio ac arolygu ac nid â hawliau i wasanaethau. Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn gorfodi dyletswyddau ychwanegol i ddarparu cymorth y tu hwnt i'r hyn a orfodir eisoes o dan ddeddfwriaeth gyfredol. Gan ymateb i'r adborth hwn, rydym wedi ailystyried y

diffiniad a ddefnyddir i ddisgrifio'r math o wasanaethau a fydd yn ddarostyngedig. Er mwyn dangos yn fwy eglur nad ydym yn cyfeirio yn y fan yma at ofal a chymorth yn yr ystyr a ddefnyddir gan Ddeddf 2014, rydym wedi penderfynu defnyddio "cymorth" yn hytrach na "gofal a chymorth" ym mhob rhan o'r rheoliadau cyfan.

O ran y term "canlyniadau personol", rydym wedi dod i'r casgliad y byddai'n well cyfeirio at angen am gymorth (hy am wasanaeth mabwysiadu). Bydd hyn yn osgoi anawsterau ynghylch, er enghraifft, pa un a oes gan riant biolegol "ganlyniadau personol" i'w bodloni na ellir eu cyflawni trwy'r ddarpariaeth (yn benodol) o wasanaethau mabwysiadu; ac ynghylch sut y gellid cydbwyso canlyniadau personol plentyn ac oedolyn pryd y gallent, mewn gwirionedd, wrthdaro.

Gellir cysylltu angen am gymorth gyda'r mathau o gymorth sydd gennym ni eisoes mewn cyfraith ac y mae rhanddeiliaid yn gyfarwydd â hwy. Felly ni fyddai'n ofynnol i Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol, er enghraifft, ddarparu unrhyw "gymorth" y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes yn ofynnol ganddynt trwy Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 wrth drefnu mabwysiadau neu (ar ôl trefnu mabwysiadau) trwy Reoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005.

Rydym yn cytuno y byddai Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn sail briodol ar gyfer y gofynion hyn ac rydym yn bwriadu cyfeirio atynt yn y canllawiau, fel yr ydym wedi ei wneud yng nghyswllt gwasanaethau maethu.

Nid ydym o'r farn y dylai canllawiau drafod sut y dylai "sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd" gael eu harddangos ac y byddent yn cael eu monitro gan AGC. Cyfrifoldeb y darparwr gwasanaeth y dangos hyn i AGC, gan ddangos sut y maent yn gwybod bod y bobl sy'n ystyried canlyniad unrhyw adolygiad yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r cymhwysedd priodol i wneud hynny. Rydym wedi penderfynu peidio â hepgor "fel rheol" o'r canllawiau statudol fel yr awgrymwyd oherwydd, yn yr un modd â gwasanaethau cam 3 eraill, efallai na fydd bob amser yn bosibl gwneud hysbysiad o fewn 24 awr i'r digwyddiad, hyd yn oed os mai gwneud hynny yw'r arfer.

O ran y sylw ar Reoliad 10, mae'r canllawiau statudol ar Reoliad 40 (addasrwydd staff) yn trafod y pwynt a godwyd: "Mae darparwyr gwasanaeth yn sicrhau bod staff yn cydymffurfio â gofynion eu codau ymarfer proffesiynol". Hefyd, dylai'r sefyllfa fod yn fwy eglur ar ôl gwahanu'r rheoliadau awdurdodau lleol oddi wrth y rheoliadau gwasanaethau rheoleiddiedig, sy'n mynd i'r afael â'r broblem nad oedd hyn wedi ei gynnwys yn flaenorol yn adran Staffio y rheoliadau cyfansawdd. Dylai fod yn fwy amlwg erbyn hyn.

RHAN 4: Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu – gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol

Cwestiwn 3: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
2	2	0	0	5
22%	22%	0%	0%	56%

Crynodeb o'r ymatebion

Gwnaeth un ymatebwr bwynt yma, ac mewn rhan arall o'i ymateb, i'r perwyl bod angen i awdurdodau lleol unigol a'u rhanbarthau fod yn eglur ar ba lefel y mae eu cyfrifoldebau priodol o dan y rheoliadau hyn.

Roedd grŵp o ymatebwyr o'r farn bod y gofynion o ran monitro a gwella yn Rheoliad 18 a'r dyletswyddau o ran yr adolygiad o ansawdd gofal (Rheoliad 74) yn gorgyffwrdd yn sylweddol.

Roedd y grŵp hwn hefyd yn dymuno gweld Rheoliad 74 yn cael ei gyfochri â'r rheolwyr mabwysiadu rhanbarthol ar gyfer y fframwaith Rheoli Perfformiad ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Roeddent yn teimlo y byddai hyn yn gwella defnyddioldeb y data a gynhyrchir ac yn helpu i gadw lefel yr adnoddau sydd eu hangen i ymgymryd â'r ymarfer hwn cyn lleied â phosibl.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cytuno y bydd yn bwysig i ranbarthau ac awdurdodau lleol unigol ystyried yn ofalus eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau priodol. Nid oes templed penodol ar gyfer sut y byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i hyn gael ei wneud, y tu hwnt i ofynion y rheoliadau a'r cod.

Nid ydym o'r farn bod darpariaethau Rheoliadau 18 a 74 yn gorgyffwrdd. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r systemau a'r prosesau ar gyfer casglu deunydd archwilio a monitro ansawdd tra bod y llall yn ymwneud â datblygu'r adroddiad adolygu ansawdd gofal ('ansawdd gwasanaeth' erbyn hyn). Yn yr un modd, mae Rheoliad 18 yn neilltuo cyfrifoldeb i'r awdurdod lleol[13] tra bod Rheoliad 74 yn nodi cyfrifoldeb y rheolwr[14]. Mae'r dull hwn yn gyson â'r un a oedd yn berthnasol i'r meysydd gwasanaeth eraill o dan Ddeddf 2016.

[13] Neu ddarparwr, yn achos gwasanaeth rheoleiddiedig
[14] Unigolyn cyfrifol, yn achos gwasanaeth rheoleiddiedig

RHAN 5: Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu – darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig a darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol

Cwestiwn 4i: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
3	1	0	0	5
33%	11%	0%	0%	56%

Cwestiwn 4ii: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdod lleol?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
2	1	1	0	5
22%	11%	11%	0%	56%

Crynodeb o'r ymatebion

Dywedodd un ymatebwr ei bod yn fwy eglur beth fyddai swyddogaeth yr unigolyn cyfrifol o ran gwasanaeth rheoleiddiedig. Nododd un ymatebwr, o ran gwasanaethau awdurdodau lleol, y dylai Rheoliad 25 (Cytundebau Gwasanaeth) gael ei deilwra yn agosach i wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol. Cafwyd sylwadau gan ddau ymatebwr ynghylch Rheoliad 31 (Cofnodion). Yn eu hanfod, roedd y rhain yn awgrymu yng ngoleuni hirhoedledd cynyddol, mwy o ddiddordeb mewn unigolion a fabwysiadwyd yn ymholi am eu gorffennol a dymuniad am gysondeb rhwng Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ac Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu, y dylai'r cyfnod cadw cofnodion ar blant fod yn 100 mlynedd pan fo gorchymyn mabwysiadu wedi ei wneud. Teimlwyd hefyd pan na wnaed gorchymyn mabwysiadu bod 15 mlynedd i oedolion yn ddiangen o hir ac anghymesur pan mai dim ond ymholiadau cychwynnol a wnaed. Awgrymwyd graddfa amrywiol o 18 mis i 5 mlynedd .

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu'r farn bod swyddogaeth yr unigolyn cyfrifol yn fwy eglur. Nawr bod y rheoliadau drafft wedi eu rhannu'n gyfresi ar wahân ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig a darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol, rydym o'r farn bod y gofynion ar awdurdodau lleol wedi eu hamlinellu'n fwy eglur ac, ynghyd â'r eglurhad yr ydym wedi ei roi o ran Rheoliad 7 ynghylch 'addasrwydd y gwasanaeth', dylai hyn fynd i'r afael â'r pryder am Reoliad 25 (Cytundebau Gwasanaeth). Rydym yn cytuno mewn egwyddor â'r sylwadau yn ymwneud â chyfnodau cadw cofnodion ac rydym wedi gwneud newidiadau priodol yn adlewyrchu'r rhain yn y rheoliadau fel y'u gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

RHAN 6: Polisïau, gweithdrefnau a safonau eraill – darparwyr gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig a darparwyr gwasanaeth mabwysiadu awdurdodau lleol

Cwestiynau 5i a 5ii: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu [rheoleiddiedig ac awdurdod lleol]?[15]				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
2[16]	2	0	0	5
22%	22%	0%	0%	56%

Crynodeb o'r ymatebion

Dywedodd un ymatebwr bod y disgwyliadau ynghylch monitro a gwella gwasanaethau awdurdodau lleol yn fwy eglur. O ran Rheoliad 32 (Gofynion i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau), nodwyd pwyntiau ynghylch yr angen i bolisïau a gweithdrefnau ym mhob gwasanaeth ymgorffori'r fframwaith a'r cytundebau rhanbarthol perthnasol ac i fentrau mabwysiadu cydweithredol adolygu eu polisïau i sicrhau cysondeb, a groesawyd gan yr ymatebwr.

O ran Rheoliad 33 (Polisïau a gweithdrefnau diogelu), gwnaed awgrymiadau y dylid trosi rheoliadau penodol o Reoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007[17] i'r Rheoliadau drafft. Roedd y rhain yn ymwneud â gwirio tystlythyrau dros y ffôn, amlder archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a storio cyhuddiadau a wnaed yn erbyn unigolyn.

O ran Rheoliad 34 (Polisi a gweithdrefn cwynion), awgrymodd un ymatebwr y dylid trosi rheoliadau penodol o Reoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2005 i'r Rheoliadau drafft. Roedd y rhain yn ymwneud â galluogi plant i wneud cwyn, gan sicrhau nad oedd unrhyw berson yn destun dial am wneud cwyn, gan sicrhau nad oes unrhyw berson sy'n destun cwyn yn cymryd rhan yn yr ystyriaeth ohoni, ac y dylai fod gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ystyried cwynion.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu'r farn a fynegwyd bod y darpariaethau yn ymwneud â gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol yn eglur. Fel y nodwyd uchod, rydym yn cytuno y bydd yn bwysig i ranbarthau ac i awdurdodau lleol unigol ystyried yn ofalus eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau priodol. Nid oes unrhyw dempled penodol ar gyfer sut y byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i hyn gael ei wneud, y tu hwnt i ofynion y rheoliadau a'r cod.

[15] Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn o ran gwasanaethau rheoleiddiedig a gwasanaethau awdurdodau lleol yr un fath i raddau helaeth ac felly fe'u cyfunwyd at ddibenion y tabl hwn.
[16] Ni wnaeth un ymatebwr roi tic yn y blwch ar gyfer y cwestiwn am addasrwydd y rheoliadau yn y Rhan hon ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol; fodd bynnag, byddai'r cyd-destun yn awgrymu mai cytuno oedd y bwriad.
[17] Cyfeiriwyd atynt yn anghywir yn yr ymateb fel 'ASA(W) Regs 2007'

O ran diogelu, rydym o'r farn na fyddai'n briodol nodi gofynion diogelu manwl yn y ddeddfwriaeth hon, pryd y dylent yn briodol fod mewn deddfwriaeth diogelu benodol, gan gyfeirio atynt yma; yn hytrach, mae'r Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn eglur y dylai polisïau cynhwysfawr a gweithdrefnau cyfredol fod ar waith a bod rhaid gweithredu arnynt ar unwaith.

O ran cwynion, nodwn fod y darpariaethau y cyfeiriwyd atynt yn yr ymateb o fersiwn gynharach o Reoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2005. Serch hynny, mae'r Canllawiau statudol yn nodi y dylai fod gan ddarparwyr bolisi cwynion hygyrch sy'n esbonio sut y gall unigolion gael eu cynorthwyo i wneud cwyn ac yn sicrhau nad yw Unigolion yn dioddef gwahaniaethu, anfantais, na diddymiad na lleihad gwasanaeth o ganlyniad i wneud sylwadau neu gwynion. Rydym o'r farn bod hon yn ffordd briodol a chymesur o ymdrin â'r mater hwn.

RHAN 7: Safleoedd - darparwyr gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig a darparwyr gwasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol

Cwestiwn 6: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
3	1	0	0	5
33%	11%	0%	0%	56%

Cwestiwn 6: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
2	2	0	0	5
22%	22%	0%	0%	56%

Crynodeb o'r ymatebion

Prin oedd yr ymateb a gafwyd ynglŷn â'r Rhan hon. Roedd yr ymatebion a gafwyd yn canolbwyntio ar gyfleusterau a chyfarpar. Gofynnodd un ymatebwr am eglurhad ynghylch gofynion ar gyfer storio cofnodion. Cafwyd awgrym yn y digwyddiadau ymgynghori y dylid hepgor y darpariaethau ynghylch cyfarpar gan nad ydynt yn berthnasol i wasanaethau mabwysiadu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cytuno, ar ôl myfyrio, nad yw'r darpariaethau yn nrafft ymgynghori'r Rheoliadau o ran cyfleusterau a chyfarpar yn berthnasol i wasanaethau mabwysiadu ac rydym wedi eu hepgor o'r fersiwn fel y'i gosodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

RHAN 8: Staffio - darparwyr gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig a darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol

Cwestiwn 7i: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
3	1	0	0	5
33%	11%	0%	0%	56%

Cwestiwn 7ii: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
1	2	0	0	6
11%	22%	0%	0%	67%

Crynodeb o'r ymatebion

Gwnaed amrywiaeth o sylwadau manwl ynghylch y darpariaethau yn y Rhan hon. Nododd un ymatebwr y byddai angen i bob menter gydweithredol ranbarthol sicrhau bod cysondeb ar draws arferion adnoddau dynol pobl aelod awdurdod lleol o ran cydymffurfio â'r gofynion. Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylid cynnwys gofyniad i'r holl staff perthnasol gofrestru gyda gwasanaeth diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gan wneud ymholiadau am y ddarpariaeth yn y canllawiau statudol/cod ymarfer drafft ynghylch goruchwylio gwirfoddolwyr, y defnydd o oruchwyliaeth grŵp, ac amlder goruchwyliaeth, a chodwydhefyd y cwestiwn o pa mor berthnasol yw prosesau disgyblu i wirfoddolwyr.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Cyfrifoldeb mentrau cydweithredol rhanbarthol fyddai penderfynu faint o gysondeb y maent yn dymuno gweithio tuag ato o ran cydymffurfio â'r gofynion, o ran yr arfer da a nodir yn y cod ymarfer sy'n ategu'r rheoliadau.

O ran y pwyntiau eraill a wnaed, mae'r gofynion yn adlewyrchu'r prosesau/gofynion presennol ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Ni fyddai'n briodol defnyddio'r rheoliadau hyn i orfodi un llwybr i ardystiad gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn hytrach nag un arall.

Diwygiwyd y canllawiau statudol a'r cod ymarfer i wneud goruchwyliaeth yn ofynnol bob tri mis o leiaf (yn hytrach nag yn fisol fel o'r blaen) ac i gyfeirio at y defnydd o oruchwyliaeth grŵp pan fo'n briodol. Yn olaf, ehangwyd y canllawiau statudol a'r cod ymarfer i gynnig canllawiau ynghylch camau gweithredu y gallai darparwyr eu cymryd mewn ymateb i gwestiynau am addasrwydd gwirfoddolwr i ymarfer, gyda chamau gweithredu posibl yn cynnwys:

- darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth ychwanegol
- terfynu'r trefniadau gwirfoddolwyr; ac
- atgyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu'r heddlu, pan fo'n briodol.

RHAN 9: Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol

Cwestiwn 8: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer unigolion cyfrifol?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
3	1	0	0	5
33%	11%	0%	0%	56%

Crynodeb o'r ymatebion

Awgrymodd un ymatebwr bod y disgwyliadau ynghylch yr adroddiad ansawdd gofal, adolygu cwynion a chylch gwaith ehangach mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn fwy eglur nag o'r blaen. Fodd bynnag, gwnaed cais am argymhellion mwy pendant ynghylch ymweliadau, gan gynnwys datblygu templed yn cynnwys y meysydd i'w monitro, i ddarparu'r sail ar gyfer arfer cyson ar draws mentrau mabwysiadu cydweithredol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym o'r farn bod cyfrifoldebau'r Unigolyn Cyfrifol o ran ymweliadau wedi eu cyflwyno yn eglur yn y rheoliadau a'r canllawiau statudol. Rydym o'r farn ei bod yn bwysig i'r Unigolyn Cyfrifol ystyried a gwneud penderfyniad unigol ynghylch yr hyn y mae angen ei drafod yn ystod ei ymweliad, yn seiliedig ar ei ddealltwriaeth benodol o anghenion y gwasanaeth. Mae'r gofyniad yn ymwneud ag ymweliadau yn berthnasol i wasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig yn unig.

RHAN 10: Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol

Cwestiwn 9: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer unigolion cyfrifol?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
2	2	0	0	5
22%	22%	0%	0%	56%

Crynodeb o'r ymatebion

Ni wnaed unrhyw sylwadau ynghylch y Rhan hon.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Dim.

RHAN 11: Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau cydymffurfedd y gwasanaeth

Cwestiwn 10: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer unigolion cyfrifol?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
2	2	0	0	5
22%	22%	0%	0%	56%

Crynodeb o'r ymatebion

Ni wnaed unrhyw sylwadau ynghylch y Rhan hon.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Dim.

RHAN 12: Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth rheoleiddiedig

Cwestiwn 11: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer unigolion cyfrifol?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
3	1	0	0	5
33%	11%	0%	0%	56%

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar y gofynion ynghylch adolygiadau ansawdd gofal (y cyfeirir atynt fel 'adolygiadau ansawdd gwasanaeth' yn y rheoliadau erbyn hyn). Awgrymodd yr ymatebwyr bod chwe mis yn gyfnod rhy fyr ar gyfer cynnal adolygiad o ansawdd ac y byddai gwneud adolygiadau o'r fath yn ofynnol ddwywaith y flwyddyn yn golygu dargyfeirio adnoddau mewn modd annefnyddiol. Cafwyd cais am dempledi ar gyfer cwblhau adolygiadau o'r fath i gynnig cysondeb o ran y ffordd y caiff gwybodaeth ei chasglu a'i rhannu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd yn bendant wrth ymgynghori. Fodd bynnag, rydym yn credu ei bod yn bwysig ac yn rhesymol ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau mabwysiadu, fel gwasanaethau eraill o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol, adolygu ansawdd eu gwasanaethau bob chwe mis mewn ffordd gymesur a gwneud y defnydd gorau o adnoddau data presennol, yn rhan o gylch sicrhau ansawdd parhaus. Dylai darparwyr ystyried sut y gellir defnyddio'r prosesau sicrhau ansawdd presennol sydd ganddynt ar waith i hysbysu'r adroddiad adolygu ansawdd gwasanaeth.

Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn llunio canllawiau ymarferol ar yr adolygiadau hyn, gan gynnwys templed, i gynorthwyo darparwyr i ddefnyddio'r adroddiad adolygu ansawdd gofal i asesu effeithiolrwydd a pherfformiad eu gwasanaeth ac ystyried ble y gellir gwneud gwelliannau.

Rydym wedi rhoi'r pennawd newydd "Adolygiad ansawdd gwasanaeth" i'r rheoliad hwn, i adlewyrchu ein defnydd o ddiffiniad yn seiliedig ar "gymorth" yn hytrach na "gofal a chymorth".

RHAN 13: Gofynion eraill ar unigolion cyfrifol

Cwestiwn 12: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer unigolion cyfrifol?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
2	2	0	0	5
22%	22%	0%	0%	56%

Crynodeb o'r ymatebion

Ni wnaed unrhyw sylwadau ynghylch y Rhan hon.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Dim.

RHAN 14: Troseddau

Cwestiwn 13: A yw'r dull o weithredu ynglŷn â throseddau yn y Rheoliadau drafft (rheoliad 63 ynglŷn â darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig a rheoliad 64 ynglŷn ag unigolion cyfrifol) yn ddigonol a chymesur?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
0	0	0	0	9
0%	0%	0%	0%	100%

Crynodeb o'r ymatebion

Awgrymodd un ymatebwr nad oedd y dull yn gymesur â'r nod o sicrhau llywodraethu da, a chwestiynwyd y cymhwysiad o ddedfrydau o garchar mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio. Cwestiynwyd gan ymatebwr arall pa un a ddylai fod mwy o bwyslais ar weithio mewn partneriaeth â darparwyr ar eu cynlluniau gwella yn hytrach nag ar orfodi cosbau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Deddf 2016 (adran 51(1)) yn nodi'r raddfa amrywiol o gosbau pan geir person yn euog o drosedd. Mae hyn yn amrywio o ddirwy i garchariad am hyd at 2 flynedd. Mae Deddf 2016 (adran 52) hefyd yn rhoi grym i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) roi hysbysiad o gosb (i dalu dirwy benodedig) yn hytrach na chychwyn erlyniad, y gallai ei wneud ar gyfer rhai troseddau syml penodol. Os na chaiff y ddirwy ei thalu, efallai y gwnaiff AGC benderfynu erlyn wedyn.

Mae *Polisi ar sicrhau gwelliant a gorfodi*[18] Arolygiaeth Gofal Cymru yn esbonio'r dull cymesur o wella a gorfodi sy'n weithredol. Caiff gweithdrefnau gorfodi eu defnyddio dim ond pan nodwyd diffyg cydymffurfedd yn dilyn arolygiad. Bydd cyfle i'r darparwr gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol ddatrys yr achos o ddiffyg cydymffurfedd cyn y caiff camau gorfodi sifil (e.e. cyfyngiadau ar gofrestriad y darparwr gwasanaeth) neu gamau gorfodi troseddol (h.y. cosbau) eu hystyried. Pan fydd diffyg cydymffurfedd parhaus, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ba un a ellid cymryd camau gorfodi sifil cyn unrhyw gamau troseddol.

Ni chychwynwyd erlyniad yn erbyn gwasanaeth mabwysiadu hyd yma.

[18] https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-06/180601-polisi-ar-sicrhau-gwelliant-a-gorfodi-cy.pdf

Hysbysiadau Cosb (Nid oes darpariaeth yn y Rheoliadau drafft ar gyfer hysbysiadau cosb)

Cwestiwn 14: A yw'r dull o weithredu ynglŷn â hysbysiadau cosb, fel y'i dangosir yn Atodiad A, yn ddigonol a chymesur? A yw'r lefelau cosb yn briodol?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
1	1	1	0	6
11%	11%	11%	0%	67%

Crynodeb o'r ymatebion,

Gweler o dan gwestiwn 13 uchod.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gweler o dan gwestiwn 13 uchod.

RHAN 15: Darparwyr gwasanaethau y mae eu busnesau wedi'u diddymu, ac ati, neu sydd wedi marw

Cwestiwn 15: A yw'r gofynion a osodir ar bersonau a benodir a chynrychiolwyr personol yn rhesymol?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
2	1	0	0	6
22%	11%	0%	0%	67%

Crynodeb o'r ymatebion

Ni wnaed unrhyw sylwadau ynghylch y Rhan hon.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Dim.

RHAN 16: Rheoliadau o dan adran 21(5) o'r Ddeddf – Dynodiad Unigolyn Cyfrifol gan Weinidogion Cymru

Cwestiwn 16: A yw'r amgylchiadau lle y gallai unigolion cyfrifol gael eu dynodi gan Weinidogion Cymru, yn hytrach na'r darparwr gwasanaeth, yn ddigonol ac yn briodol?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
2	1	0	0	6
22%	11%	0%	0%	67%

Crynodeb o'r ymatebion

Ni wnaed unrhyw sylwadau ynghylch y Rhan hon.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Dim.

RHAN 17: Gofynion ar reolwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol

Cwestiwn 17: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer rheolwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
2	1	0	0	6
22%	11%	0%	0%	67%

Crynodeb o'r ymatebion

Dywedodd un ymatebwr bod mwy o ddyletswyddau yn cael eu neilltuo i reolwr gwasanaeth awdurdodau lleol, ynghyd â mwy o atebolrwydd a chanlyniadau cysylltiedig, a gwnaeth yr awgrym y dylai pob menter gydweithredol ranbarthol benodi rheolwr gwasanaeth penodol i oruchwylio gwasanaethau mabwysiadu. Gofynnodd pa un ai'r Rheolwr Gwasanaeth oedd y swyddog dynodedig ar gyfer Gwasanaethau Rhanbarthol neu a fyddai gan bob awdurdod lleol Reolwr gwasanaeth yn gyfrifol am elfen awdurdod lleol y ddarpariaeth yn y rhanbarth hwnnw.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr gwasanaeth benodi un o'i swyddogion i fod yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth. Byddai penodi rheolwr gwasanaeth rhanbarthol i oruchwylio gwasanaethau mabwysiadu, yn ogystal â rheolwyr gwasanaeth awdurdodau lleol eu hunain, yn fater i'r mentrau cydweithredol rhanbarthol.

RHAN 18: Gofynion eraill ar ddarparwr gwasanaeth mabwysiadu awdurdodau lleol

Cwestiwn 18: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer rheolwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol?				
Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
2	1	0	0	6
22%	11%	0%	0%	67%

Crynodeb o'r ymatebion

Awgrymodd un ymatebwr, o ran Rheoliad 77 (Gofyniad i agor cofnod achos ar gyfer plentyn) y dylid gwneud cyfeiriad at y broses asesu dau gam newydd (arfaethedig).

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ni fyddai'n briodol gwneud cyfeiriad mewn cyfraith at ddarn o ddeddfwriaeth arfaethedig nad yw wedi ei ddeddfu eto. Beth bynnag, ers yr ymgynghoriad, nodwyd bod Rheoliadau 77 a 78 (rhieni biolegol) eisoes yn bodoli yn eu hanfod yn Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 (sy'n berthnasol i awdurdodau lleol). Nid yw'r rheoliadau hyn yn cael eu disodli o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol. Nid ydym felly yn cynnwys Rheoliadau 77 a 78 yn Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019 mwyach.

Mecanwaith Adolygu Annibynnol

Cwestiwn 19: Byddem yn falch o gael eich barn ar ddyfodol adolygiadau annibynnol o benderfyniadau a'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol. Wrth ichi fynegi'ch barn, ystyriwch y cwestiynau canlynol:

a) A oes angen o hyd am adolygiadau annibynnol o benderfyniadau yn ymwneud â mabwysiadu?
b) A fyddai unrhyw anfanteision o hepgor y gofyniad i gynnal adolygiad annibynnol o benderfyniadau ar gyfer mabwysiadu?
c) A ddylem ni gadw'r trefniadau presennol ar gyfer adolygiadau annibynnol a gefnogir gan fecanwaith adolygu annibynnol? Rhowch resymau dros eich ateb.
ch) A oes trefniadau newydd neu amgen a allai gael eu sefydlu ar gyfer adolygu penderfyniadau o gymhwyster ar gyfer mabwysiadu? Os oes, beth allai'r trefniadau hynny fod?
d) Pa drefniadau amgen y gellid eu sefydlu ar gyfer ceisiadau i ddatgelu gwybodaeth am fabwysiadu?
dd) Os ydych chi'n dymuno cynnig trefniadau newydd neu amgen, byddwch mor fanwl â phosibl ynghylch sut y gallai'r trefniadau hynny weithio'n ymarferol, ac egluro sut y byddai unrhyw gynigion yn dangos tryloywder, annibyniaeth ac yn hyrwyddo mabwysiadu.

Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd chwech o ymatebion i'r cwestiwn hwn, yn mynegi amrywiaeth o safbwyntiau. Roedd un ymatebwr o'r farn ei bod yn hanfodol i fecanweithiau adolygu annibynnol barhau. O'r rhai a oedd yn agored i ddiwygio, roedd un yn ffafrio dewis mwy ysgafn yn cynnwys un adolygydd annibynnol yn unig ac awgrymodd un arall, gan nodi bod y system bresennol yn ddrud ac yn cael ei defnyddio yn anaml, y gallai annibyniaeth gael ei darparu gan asiantaeth mabwysiadu arall. Roedd trydydd o'r farn nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y broses mecanwaith adolygu annibynnol yn cael effaith fuddiol na hirdymor, ac awgrymodd y gallai awdurdodau lleol ddefnyddio'r broses gŵynion. Yn olaf, cafwyd sylw gan un ymatebwr y gallai'r diffyg dewis o adolygiad annibynnol atal rhai darpar fabwysiadwyr rhag gwneud cais, a chafwyd awgrym y dylid archwilio hyn ymhellach gydag asiantaethau a mabwysiadwyr.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i ystyried canlyniad y rhan hon o'r ymgynghoriad a bydd yn cyflwyno deddfwriaeth ddiwygio ar wahân, os bydd hynny'n briodol, maes o law.

2.2 Cwestiynau ychwanegol

Cwestiwn 20: A ydych chi'n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?

A ydych chi'n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig?

Crynodeb o'r ymatebion

Prin oedd yr ymatebwyr a roddodd sylw i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a roddodd ymateb, roedd un na wnaeth nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol penodol nac unrhyw effeithiau negyddol. Croesawodd un arall yr effaith gadarnhaol ar hawliau plant (yn enwedig *yr hawl i gael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt* (Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) a'r *hawl i wybodaeth a all hysbysu eu safbwyntiau* (Erthygl 13 y Confensiwn)) trwy ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu mewn fformat priodol, gan gymryd i ystyriaeth anghenion, oedran a lefel dealltwriaeth y person y bwriedir y gwasanaeth ar ei gyfer. Gwnaeth yr ymatebwr rai awgrymiadau hefyd ynghylch materion o fanylion i'w cynnwys yn y rheoliadau a fyddai'n atgyfnerthu hawliau plant. Roedd un arall o'r farn y byddai llawer o'r gofynion yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc a oedd wedi eu mabwysiadu ond pwysleisiodd y pwysigrwydd o adlewyrchu safbwynt hawliau plant yn y canllawiau sy'n ategu gweithrediad y gofynion. Cwestiynwyd y ffordd y fframiwyd y cwestiwn gan bedwerydd ymatebwr.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu safbwyntiau'r ymatebwyr na fydd y Rheoliadau drafft yn cael effaith negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig, a'r effeithiau cadarnhaol a nodwyd o ran hawliau plant. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon na fydd y Rheoliadau yn cael effaith negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Gellir gweld ymateb Llywodraeth Cymru o ran materion ychwanegol yn ymwneud â manylion o dan y rhan/cwestiwn perthnasol uchod. Mae'r ffordd y fframiwyd y cwestiwn hwn am nodweddion gwarchodedig yn gyffredin ar draws holl ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, ond nodwyd y sylwadau ar gyfer eu hystyried yn y dyfodol.

Cwestiwn 21: A yw'r costau/manteision/risgiau y cyfeirir atynt yn y ddogfen ymgynghori hon yn cynnig disgrifiad rhesymol o lefel effaith y Rheoliadau drafft? A oes unrhyw gostau/manteision/risgiau ychwanegol yr ydych yn teimlo nad ydynt wedi eu hystyried na'u nodi?'

Crynodeb o'r ymatebion

Ni wnaed unrhyw sylwadau ynghylch y cwestiwn hwn. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau penodol ynghylch beichiau. Rhoddir sylw i'r rhain o dan y rhan/cwestiwn perthnasol uchod.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Dim. Mae Ymateb Llywodraeth Cymru i faterion penodol a godwyd o ran y beichiau ar gael o dan y rhan/cwestiwn perthnasol uchod.

Cwestiwn 22: Hoffem gael gwybod eich safbwyntiau o ran yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn arbennig o ran

i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a
ii) pheidio â thrin yr iaith yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Esboniwch hefyd sut yr ydych yn credu y gellid llunio neu newid y polisi arfaethedig i gynnwys:

i) effeithiau cadarnhaol neu gynnydd o ran yr effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac

ii) osgoi effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd un ymateb i'r cwestiwn hwn. Awgrymodd yr ymatebwr y dylai fod mwy o bwyslais ar bwysigrwydd y Gymraeg drwy'r broses gyfan o asesu hyd at baru a lleoli, gyda'r nod o sicrhau y gallai pob plentyn dderbyn gwasanaeth llawn trwy gyfrwng y Gymraeg (os mai dyna yw ei iaith gyntaf neu'r iaith y mae'n ei ffafrio). Awgrymodd yr ymateb hefyd y dylid rhoi cymorth i'r rhai sy'n dymuno dysgu'r iaith. Cynigiwyd y canllawiau a roddir yn *Mwy na geiriau….* ynghylch y cynnig gweithredol fel man cychwyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon na fydd y Rheoliadau yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg a bod cyfle iddynt fod yn fuddiol, yn enwedig i unigolion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt.

Bwriedir i'r Rheoliadau ategu *Mwy na geiriau…,* y Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016-2019. Seiliwyd y strategaeth ar y gwerthoedd y dylai pob unigolyn gael ei drin gydag urddas a pharch a derbyn asesiadau cywir a chymorth priodol.

Rydym wedi cynnwys yr egwyddorion hyn yn y Rheoliadau, yn bennaf o dan y gofyniad i ddarparwyr gymryd camau rhesymol i ddiwallu anghenion iaith pobl. O ran y Gymraeg, mae hyn yn golygu bod darparwyr gwasanaeth yn darparu neu'n gweithio tuag at wneud cynnig gweithredol o wasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg i unigolion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. O ran gwybodaeth i unigolion, mae gofyniad i'r canllaw ar y gwasanaeth fod mewn iaith, arddull, cyflwyniad a fformat priodol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r gofynion yn y Rheoliadau hefyd yn cefnogi un o'r egwyddorion craidd yn Neddf 2014, i alluogi pobl i gael llais cryfach yn y ddarpariaeth o wasanaethau iddynt, a mwy o reolaeth dros y gwasanaethau hynny.

Cwestiwn 23: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, dywedwch wrthym amdanynt yn y fan yma.

Crynodeb o'r ymatebion

Prin oedd yr atebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn. Gwnaeth un ymatebwr rai sylwadau ynghylch agweddau gweithredol Paneli Mabwysiadu. Cododd un arall y cwestiwn o gymorth mabwysiadu a'r ffordd y mae hyn yn berthnasol i gynllun gofal a chymorth plentyn sy'n ofynnol o dan Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac unrhyw gynllun gofal a chymorth dilynol o dan Ran 4 y Ddeddf honno.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel y nododd yr ymatebwr, mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) drafft 2019 yn destun proses ymgynghori ar wahân. Atgyfeiriwyd sylwadau ynghylch agweddau gweithredol Paneli Mabwysiadu i'r broses honno ar gyfer eu hystyried.

Nid yw rheoliadau yn ymwneud â rheoleiddio ac arolygu yn gyfrwng ar gyfer egluro'r berthynas rhwng cymorth mabwysiadu a gofal a chymorth. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r sylwadau a wnaed o dan ystyriaeth.

Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

Rhif	Cyfrinachol Y / NY		Sefydliad/Ar ran
1.		✓	Home for Good
2.		✓	Gofal Cymdeithasol Cymru
3.		✓	Cyngor Sir Fynwy
4.		✓	Comisiynydd Plant Cymru
5.		✓	Plant yng Nghymru
6.		✓	Iechyd Cyhoeddus Cymru
7.		✓	Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru
8.		✓	Voices from Care Cymru
9.		✓	Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru